

7. Pennaeth Economi a Chymuned

Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.

Swyddogaethau a ddirprwir gan y Cyngor

Dim

Swyddogaethau a ddirprwir gan y Cabinet

7.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Ewrop
- Rhaglenni cyllido Ewropeaidd
- Rhaglenni adfywio
- Gwasanaethau busnes
- Marchnata
- Twristiaeth
- Digwyddiadau
- Cymunedau'n Gyntaf
- Grantiau adfywio
- Amgueddfeydd
- Archifdai
- Orielau
- Sinemâu a theatrau
- Celfyddydau
- Morwrol
- Parciau gwledig
- Gwasanaethau ieuenctid
- Llyfrgelloedd
- Canolfannau hamdden
- Datblygu chwaraeon

7.2 Yn ddarostyngedig i 7.8 a 7.9 isod ac ei yn unol a'r rhaglenni, meini prawf, ac amodau a briodolir i'r cronfeydd:

- (a) cymeradwyo grantiau yn y meysydd adfywio, busnes, celfyddydol a chymunedol hyd at uchafswm o £100,000 mewn unrhyw achos unigol i ymgeisydd cymwys ar gyfer prosiect sydd wedi ei leoli yng Ngwynedd ac,
- (b) mewn ymgynghoriad a'r aelod Cabinet cymeradwyo grantiau yn y meysydd adfywio, busnes, celfyddydol a chymunedol uwchlaw £100,000 hyd at uchafswm o £250,000 mewn unrhyw achos unigol gan ymgeisydd cymwys ar gyfer ar gyfer prosiect sydd wedi ei leoli yng Ngwynedd.

- (c) ~~Cymeradwyo grantiau busnes hyd at uchafswm o £50,000 mewn unrhyw achos unigol gan ymgeisydd cymwys sydd a'i gartref neu fusnes wedi ei leoli o fewn terfyn Gwynedd.~~

7.3 Gosod unedau a thiroedd diwydiannol a chymryd camau i'w diogelu rhag meddiant anghyfreithlon ac i'w hadfeddiannu.

7.4 Cyflwyno rhybudd ymadael i denant uned neu dir diwydiannol a cheisio meddiant trwy'r llysoedd.

7.5 Caniatau disgownt rhent ar unedau a thiroedd diwydiannol.

7.6 Pennu neu amrywio taliadau am fynediad i amgueddfeydd, orielau a theatrau'r Cyngor lle bo hynny'n briodol.

7.7 Awdurdod i wneud ceisiadau am arian grant o wahanol ffynonellau a gweithredu'r rhaglenni sy'n deillio o hynny.

~~Mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dyrannu grantiau cymunedol yn unol â rhaglenni a gymeradwywyd gan Y Cabinet o wahanol gronfeydd cymunedol.~~

7.8 Mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet penderfynu ar geisiadau am gymorth ariannol o Gronfa'r Degwm.

7.9 Mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet penderfynu ar geisiadau am gymorth ariannol o'r Grantiau Strategol i'r Celfyddydau.

7.10 Gweithredu is-ddeddfau llyfrgelloedd.